YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1886. [RHIF 60.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWRTEITHIAD Y MEDDWL.

GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

RHIF I.

LLITH I'R IEUAINC.*

"Yr enaid heb wybodaeth nid yw dda."—DIAR. XIX. 2.

Os gofynir paham yr ymgymmeraf a thraddodi ychydig o anerchiadau i ieuenctyd y gynnulleidfa hon atebaf:—(1). Mae yn dda genyf allu dweyd fod yr ieuenctyd yn ffurfio rhan mor luosog o'r gwrandawyr yn y lle hwn. Yr ydych yn y cyffredin yn llawer, a llawenydd gan fy nghalon yw eich gweled. Dylai cynnulleidfa gynnwys *pob* oedran, fel pob sefyllfa; ond os oes un dosparth i fod yn lluosocach nâ'r llall, dosparth yr ieuainc yw. Os am weled arwyddion am dò o ddynion teilwng o'r tadau yn yr oes nesaf, ac os am gadw yn mlaen goffadwriaeth am enw Duw yn y fan hon, yna da yw gweled y rhai a fyddant yn benau teulnoedd, yn dadau a mamau yr oes nesaf, gyda ni yma yn awr, yn cymmeryd rhan mewn gwaith a'u cymhwysa ar gyfer eu dyledswyddau dyfodol.

(2) Yr wyf am gyfleusdra i wasgu ar eich sylw rai pethau na chaf gystal cyfle i'w dweyd ar achlysuron ereill. Etto, na feddyliwch nad oes genyf olwg arnoch chwi, nad ydych yn agos at fy nghalon pa bryd

* Yn mhlith papyrau Mr. Thomas, yr wyf wedi dyfod o hyd i gyfres o chwech o bregethau o dan y penawd uchod. Gyda'r gobaith y byddant mor ddyddorol i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn awr ag oeddent, yn ddiamheu, i'r rhai a'u clywsent yn cael eu pregethu fwy nag ugain mlynedd yn ol. Yr wyf yn anfon y llith cyntaf i ofal y Golygydd.—W. J.

bynag y safaf i fyny yn y lle hwn. Ond yn (3) pa eisieu un rheswm yn amgen ystyriaeth

O BWYSFAWREDD Y TYMHOR

sydd yn awr yn eich meddiant, ond yn cyflym dreulio ymaith? Tymhor mawr yw o brydferthwch naturiol, mawr yn ei addewidion, mawr yn ei beryglon, yn ei gyfleusderau, mawr yn y possiblrwydd a gynnwysa ynddo ei hun fel y cynnwysa y blaguryn bach ffrwyth hardd ac addfed yr Hydref. Dyma ddigon o reswm dros gyfarch gair neillduol i'r ieuenctid. Fy nghyfeillion, dyma adeg bwysicaf eich bywyd. Mae y cyfan a fyddwch yn troi i raddau annhraethol ar y peth y mynwch fod yn awr. Yr ydych yn ymlunio i fod y naill beth neu'r llall yn ystod eich bywyd; ac mae eich tynged yn y dyfodol yn ymddibynu ar y penderfyniadau a'r arferion a ffurfiwch, a'r egwyddorion a fabwysiadwch [yn awr. Beth garech fod yn mhen deng mlynedd ar hugain neu ddeugain mlynedd etto? Amcanwch at hyny yn awr. "Parotowch eich ffyrdd" yn uniawn. "Ni chasgl neb rawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall." Faint o onestrwydd, o degwch, o gyfiawnder, o heddwch, faint o gariad at ryddid, o wybodaeth, o dduwioldeb fydd yn yr ardal hon 50 mlynedd i 'nawr? Wel! arnoch chwi yn fechgyn a merched mae ateb hyn i raddau mawr, ac yn awr, gwn y cyd-ddygwch â mi tra yn rhoi cyfarwyddiadau caredig, y goreu y gallaf eu rhoddi, er eich dwyn i barotoi ar gyfer eich cyfrifoldeb mawr mewn bywyd.

Rhaid i mi ranu fy sylwadau, er cael cyfle i ddweyd gair ar fagad o bethau sydd yn gofyn sylw. Mi a ddymunwn eich bod yn ymestyn at gymhwyso eich hunain ar gyfer gofynion bywyd mewn llawer ffordd, yn y cyfan ag ydych, yn mhob rhan a chynneddf o'ch natur. Gan mai dynion cyflawn, perfaith-gwbl, cyfartal yn eu holl ranau, yn foesol ac yn ysprydol, yn gystal ag yn gorfforol, y dylem ni oll amcanu bod.

GWRTEITHIAD Y MEDDWL

a gaiff ein sylw heddyw. Mae pob un o honoch yn ymwybodol ei fod yn berchen ar feddwl, rheswm, deall, cof, dychymmyg. Gwyddoch eich bod yn berchen ar y galluoedd hyn. O dan yr amgylchiadau mwyaf anfanteisiol dangosant eu hunain. Anhawdd, os nid anmhossibl yw crebachu a llethu'r natur mor bell nâ bo dyn yn teimlo fod ganddo'r galluoedd hyn. Ond mae'r galluoedd wedi eu rhoddi i'w magu a'u meithrin. Nid oes dim wedi ei roddi gan y Creawdwr heb ddyben daionus a doeth ar ei gyfer. Y traed i gerdded, y dwylaw i weithio, y llygaid i weled: rhaid iddynt oll gael magwraeth ac ymarferiad; felly hefyd y meddwl yn yr oll ag yw. Fel na enir y corff yn llawn faint, felly hefyd nid ymddengys y meddwl ar unwaith yn ei lawn bwer a'i ogoniant. Rhaid i ni ddechreu i gyd ar ffon isaf yr ysgol, yn feddyliol yn gystal ac yn gorfforol. Nid anerch rhieni wyf yn awr, ar y rhai mae eich gofal am flynyddoedd boreuaf eich bywyd; yr wyf yn

cymmeryd gafael arnoch pan yr ydych, pa un ai wedi gadael yr hen nyth neu peidio, yn abl ac o dan angenrheidrwydd hefyd i wneyd i fesur mwy neu lai drosoch eich hunain.

Yn awr, pa fodd mae i chwi ddwyn allan a meithrin

GALLUOEDD Y MEDDWL?

(1) *Ceisiwch arfer sylwi ar bob peth.* Arferwch fod yn graffus eich sylw. Mae sylwi yn golygu dwyn y meddwl i aros uwchben rhywbeth, syllu arno, gwneyd y goreu i'w amgyffred; o leiaf, dysgu'r cwbl am dano y byddwch yn alluog i'w ddysgu ar y pryd. Mae gwybodaeth yn dyfod i ddyn mewn llawer ffordd. Yr ydym yn dysgu llawer o bethau heb yn wybod i ni; mae'r wybodaeth fel pe byddai yn ymgripian i mewn i'r meddwl fel yr awel deneu trwy agenau yn y mur, ond nid yw arwain rhyw fywyd goddefol, di-ymgais fel hyn yn ddigon. Rhaid i ni fod yn effro, yn fywiog, yn ymroi i ddysgu a gwybod fel mae'r plentyn yn ymroi i gerdded. Rhaid i ni gadw pyrth gwybodaeth yn agored—pum synwyr y corff, y gweled, y teimlo, y clywed, yr raogli, a'r archwaethu; ond yn benaf o lawer y ddau gyntaf—y gweled a'r teimlo. Mae pa beth bynag a drosglwyddir i fewn trwy'r pyrth hyn yn cyrhaedd y deall a'r rheswm. Mae eisieu sylwi ar

Y GREADIGAETH DDIFYWYD A LLYSIEUOL

o amgylch i ni. Mae bywyd y rhan fwyaf o honoch yn cael ei arwain yn yr awyr agored. Mae y rhan fwyaf o honoch yn trin y ddaear—gorchwyl anrhydeddus, ac yn rhoddi i'r meddwl ddigon o gyfle i weithio. Ymddengys mawrion weithredoedd Duw o'ch blaen pan yn aredig y maes ac yn bwrw yr hâd i'r tir. Mae rhyw wersi i chwi i'w dysgu wrth weled yr hâd yna yn egino ac yn tyfu, a maes o law yn gorchuddio y gwys y bwriwyd ef iddi, gan addfedu i'r cryman. Mae deddfau y byd naturiol yma mewn gweithrediad ger eich bron o hyd—y tymhorau ar eu cylch, a'r hîn yn amrywio o wres tesog hâf hyd rew cadarn y gauaf, oll â'u gwersi i'r meddwl. Ymegyr hefyd o flaen eich llygaid faes rhyfeddol y nef uwchben. Er i'ch gwybodaeth fod yn gyfyngedig ar y dechreu, etto ychwanega pob sylw a wnewch, pob ffaith a gasglwch at y trysor, a rhoddant fwy o nerth ac o graffder i'r meddwl o hyd. Bydd pob sylw a wnewch yn awr yn werthfawr pan gynnyddo eich gwybodaeth—yn ffitio i mewn fel y cerryg bychain yn y mur. Yr oedd un bachgen o fugail yn Scotland o'r enw Ferguson, yn treulio nosweithiau cyfain allan yn hîn oer y wlad hono—yn gorwedd weithiau ar ei gefn ar y ddaear; ac yn ol rhyw gynlluu oedd ganddo yn tynu *map* o wahanol ranau o'r wybren. Bach oedd ei wybodaeth y pryd hwnw, ond daeth wedi hyny yn seryddwr mawr i adnabod lle ac enw aneirif lu y sêr. Ond yr hyn a ddysgasai pan yn was yn bugeilio ar y bryniau oedd yn anmhrisiadwy werthfawr iddo pan ddaeth i wybod mwy. Yr oedd bachgen arall o fugail, mab i Jesse y Bethlehemiad—llanc gwridgoch, a theg ei fryd, fel y dylai pob

bugail fod—pan yn ieuanc yn arfer sylwi ar bob peth—y sêr, y coeddydd, a'r ffynnonau dyfroedd. Bach oedd ei wybodaeth y pryd hwnw; ond ychydig at ychydig wnaiff lawer; a phan y daeth yn ddyn, ac a wnaeth lanw y swydd uwchaf yn y wladwriaeth, a pheth mwy etto, pan y cynhyrfai awen bur a derchafedig ef i ganu ei salmau, yr oedd yr argraffiadau a wnaeth ei sylw gynt ar ei feddwl yn dyfod allan yn awr yn y goleuni mwyaf swynol a phrydferth—"pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr y rhai a ordeinaist." "Yr hwn a ŷr y ffynnonau i'r dyffrynoedd, cerddant rhwng y bryniau, diodant holl fwystfilod y maes; yr asynod gwylltion a dorant eu syched." Ond byddai rhaid i mi ddyfynu yr oll yn agos o'r Salmau os am roddi y lluoedd enghreifftiau o'i sylw manwl ef ar natur o'i amgylch.

Dylech sylwi ar

REDDFAU AC ARFERION

gwahanol rywogaethau o anifeiliaid. Cewch eu gweled oll yn amrywio oddiwrth eu gilydd, ond i gyd yn cadw y lle a osododd y Creawdwr iddynt. Er nad ydych yn byw yn nghymmydogaeth y trefydd mawrion, lle mae miloedd rhyfeddodau celfyddyd i'w gweled, a chynnyrchion gwledydd tramor o bob math; etto mae rhyfeddodau y pen saer celfydd o'ch amgylch yn ddirifedi. Os oes mwy o gelfyddyd yn tynu sylw y rhai a breswyliant y trefydd poblog, mae mwy o natur yn ei gwedd cyntefig o'ch amgylch chwi. Mae genych gyfleusderau neilldnol i sylwi ar reddfau ac arferion y creaduriaid y mae daear, dyfroedd, ac awyr hefyd yn llawn o honynt yn mhob cyfeiriad. Mae ysgrifenwyr y Beibl yn dangos nad oeddynt yn ddieithr i'r pethau hyn. Darllenwch lyfr Job, y Salmau, y Diarebion, ïe, pob rhan braidd. Meddai y gwr doeth wedi sylwi ar arferion y creadur bach hwnw, ag y byddwch chwi, feallai, yn barod i'w sathru yn ddiseremoni o dan eich traed, "Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn, edrych ar ei ffyrdd ef a bydd ddoeth." Dylech sylwi ar

ARFERION AC YMDDYGIADAU DYNION.

Mae genych gyfleusderau enwog ac annogaethau cryfion at hyn etto. Ar ddyn yr ydym oll yn sylwi gyntaf; gwên, yr hon a'u hymddug a ddeffroa ein sylw plentynaidd gyntaf. "Ah!" meddai'r fam, "mae e'n dechreu sylwi heddyw." Teimla mor falch a phe wedi cael etifeddiaeth lydan. Gwyr mai dyma brawf fod ei phlentyn yn dechreu ei yrfa o ddyndod, ei fod ar ben y ffordd i bethau mwy—ei wên ef yn ateb i'w gwên hi—llygad yn cymdeithasu a llygad. Dyma fwy nas gallai ddysgwyl oddiwrth un creadur arall. A *sylwi* yw gwaith dyn tra fyddo byw. Yn neilldnol, y mae yn ddyledswydd arnoch chwi yn awr yn eich amser mwyaf bywiog i ddysgu sylwi, ac wrth sylwi, i ddysgu. Sylwi ar bawb o'ch cwmpas. Mae mwy o fantais genych i sylwi ar ac astudio dyn nag un gwrthddrych arall. Yn berchen ar yr un natur, mae cyfatebiad yn bodoli. Megys mewn dwfr y mae wyneb

yn ateb wyneb, felly mae cyfatebiad, a thebygolrwydd rhyngom oll. Etto, mae'r fath ddyfnderoedd mewn dyn, a llawer tro cyn cyrhaedd gwaelod ei galon, fel y mae digon o waith sylwi o hyd. Sylwi ar y da, sylwi ar y drwg hefyd, a'r camau graddol hyny sydd yn arwain o dda i well, ac o ddrwg i waeth. Cyssurus, addysgiadol, a chymhelliadol iawn i bob iawn ymddygiad yw sylwi ar y da. Fel mae'n dâl ei chwilio! Fel y mae profedigaeth yn ei adael i orphwys ar graig ei obaith!

"Pan fo yn y cyflwr gwaelaf
Moli Duw a wna o hyd."

"Er i'r ffigysbren na flodeuo," &c.

Y drwg, o'r ochr arall, yn cael ei daflu gan dymhestloedd y nwydau a'r chwantau. Bywyd yn fôr ystormus, di-hedd, di-wynfyd iddo—heddyw ar ben tòn pleser, foru yn ngwaelodion prudd-der ac adgno cydwybod. Ond ni chewch y da a'r drwg mor wahanedig ag y tybiech ar y dechreu, ond y da a'r anmherffeithrwydd yn nglyn ag ef, y drwg a llawer ysmotyn glas serenog ar awyr gymmylog ei fywyd. Ac oblegyd hyn mae eisieu sylwi, er peidio camfarnu y naill nâ'r llall. Er adnabod dyn pa beth sydd yn dda ynddo, a pha beth sydd yn ddrwg, nid rhyw edrych gwamal a wna'r tro. Rhaid i chwi ei ddylyn, ei wylied, dàl golwg graffus arno. Mae'r Creawdwr wedi bwriadu fod i ni ddysgyblu meddwl yn y ffordd hon er annogaeth ac er rhybudd hefyd. Os dysgwch wneyd hyn, achubwch y blaen ar lawer siomedigaeth. Cauwch y drws yn erbyn llawer barn gul, anfrawdol; chwi ddysgwch ladd y neidr yn y plisgyn trwy adnabod y perygl o ddrwg esiampl mewn pryd, chwi helpwch eich hunain i rinwedd a duwioldeb trwy gael eich harwain i hoffi a chymdeithasu a'r rhai mwyaf rhagorol o fewn cylch eich cydnabyddiaeth. Cewch olwg o'r uchelaf ar yr hyn mae yn bossibl i chwi fod, a r hyn y dylech ymestyn at fod, trwy weled i ba uchelderau o rinwedd a duwioldeb mae goreuon y ddaear yn barod wedi esgyn.

Fel hyn mae o'r pwys mwyaf i chwi arfer eich hunain i sylwi ar bob peth o'r llysieuyn ar y mur hyd at y dderwen dri chan' mlwydd ar y maes, o'r abwydyn a groesa eich llwybr hyd at ddyn a wnaed mor rhyfeddol ac ofnadwy. Bydd yn anfri yn gystal ag anfantais fwyaf i chwi, os caniatewch eich hunain i basio blynyddoedd euraidd y tymhor hwn heb arfer eich hunain i graffu ar bob peth a dysgu ryw wers fuddiol.

(2) *Dylech ddarllen llawer.* Oes y darllen yw yr oes hon, o ran cyfleusderau, nid o ran fod pawb yn darllen. Bu doethion cyn bod llyfr yn yr holl fyd—dim ond llyfr mawr y ddaear isod a'r nefoedd uchod, a llyfr mwy rhyfeddol byth y natur ddynol sydd i ni oll o'r dyddordeb a'r addysg benaf, a'r gwersi ar lafar o'r dechreuad. Ond mae darllen yn awr yn un o'r cyfryngau mwyaf effeithiol er trysori y meddwl a gwybodaeth fuddiol; a byddai'r sawl a'i hesgeulusai mor ffol a'r hwn a wrthodai drafaelu gyda'r trên am mai gwyr traed oedd eu hynafiaid oesau yn ol, ac nad oedd y fath beth yn amser Noah a Solomon.

Dysgwch ddarllen. Nis gwn a oes eisieu dweyd hyn. Wn i ddim a fedr pob un o'r bobl ieuainc o fy mlaen ddarllen. Gobeithio y gellwch, ond os oes yma ryw ychydig oblegyd rhyw anfanteision neillduol nas gallant ddarllen; da chwi, penderfynwch na welwch un dydd Calan mwy heb fod yn alluog i ddarllen. Peidiwch bod a gormod o gywilydd arnoch i addef nas gellwch. Cyfaddefwch ar unwaith, ac ati i weithio heb brisio dim. Gwell hwyr nâ hwyrach.

Ymarferwch eich hunain ynte i dynu cymmaint o fêl gwybodaeth ag a alloch o'r maes hwn. Nid darllen ar antur—beth bynag ddygwyddoch daro wrtho. Mae hi yn rhy fuan i hyny etto, ond ymgynghorwch â'r rhai allant eich cyfarwyddo. Mynwch lyfrau o duedd dda, a llawn o addysg—rhai o duedd i'ch harwain i feithrin mewn modd mwy neillduol rhyw allu perthynol i'r meddwl, y rheswm, y deall, y cof, neu'r dychymyg—llyfrau fyddo'n gadael argraff dda, sylweddol, felus, ar y meddwl. Mae'r Beibl o hyd cyrhaedd i chwi oll. Darllenwch ei ranau hawddaf i'w deall—y Diarebion, y Salmau, a hanes Iesu Grist, yn enwedig ei bregeth ar y mynydd. Darllenwch brydyddiaeth—emynau, caneuon moesol, a phob peth o'r fath, yn enwedig hanesion yr amser a fu a'r amser presenol. Peth gafaelus yw hanes. Mae ffeithiau yn fwyd i'r meddwl. Darllenwch hanes dyn yn ei wahanol gyflyrau, hanes gwahanol genedloedd, paganaidd a Christionogol, bywydau dynion da. Yn mha le y cawn ni lyfrau i'w darllen? meddai rhywun. Holwch, ymgynghorwch, sychwch y llwch oddiar y llyfrau da sydd, feallai, mewn llawer tŷ yn y gymmydogaeth yn gwaeddi yn dost yn ei iaith, "O! darllenwch fi cyn yr elo hi yn rhy ddiweddar—cyn yr elo dalen ar ol dalen i ffordd dail y goedwig, ac y mallo'r llythyrenau un ar ol y llall." Llo byddo ewyllys bydd gallu. Pe gwelem anogaeth i hyny, nid yw ond peth eithaf hawdd i gael llyfrfell fach lawn a buddiol mewn cyssylltiad â'r gynnulleidfa hon* i'r bobl ieuainc—bawb o honoch i gael digon o waith a chyfle i ddarllen.

Rhaid i mi eich gadael, heddyw, gyda'r ddau sylw yna ar gwrteithiad y meddwl. Sylwch ar bob peth o fewn i'ch cyrhaedd, ar weithredoedd y greadigaeth, y nef, y ddaear, y dyfroedd, yr anifeiliaid, a dynion. Ac hefyd, arferwch eich hunain i drysori gwybodaeth trwy ddarllen yr hyn y mae doethion ereill wedi adael i ni. Gwybyddwch na roddes y Creawdwr da un gynneddf i'w chadw yn segur, neu i'w dodi dan lestr. Cofiwch fod claddu talent yn y ddaear y trosedd gwaethaf y gallwch byth ei gyflawni. Mae eich Gwanwyn chwi yn awr yn gwenu yn siriol. Yn awr yw yr amser prydlawn i fwrw yr had da o bob math i'r ddaear, os am i'ch bywyd fod yn gynnyrchiol o gyflawniadau gwerthfawr i'ch cyd-ddynion, teilwng o honoch eich hunain, ac o natur i fod er gogoniant i Dduw. Mae'r meddwl yn awyddus, os caiff degwch, am wybodaeth. Na wenwynwch ef. Na roddwch iddo

* Yn ystod y flwyddyn y traddodwyd y bregeth hon (1864), ac feallai mewn canlyniad i'r bregeth, sefydlwyd llyfrgell yn Llwynrhydowen, yr hon sydd yn parhau yn defnyddiol hyd heddyw.—W. T.

yr hyn nid yw ond cibau gweigion ofer—siarad a gwag ddychymyg. Bendithiwch Dduw am fod eich llinynau wedi syrthio i leoedd mor hyfryd, am fod y tadau wedi gostwng llawer o'r bryniau a chodi llawer o'r pontau ar eich cyfer, a bod llawer yn cynniwair, a gwybodaeth yn amlhau.

HEN FYNWENT GELLIONEN.

Hen Fynwent Gellionen! wyt anwyl gen' I 'rioed,
Er pan gyntaf gofio wyf i'th sangu â fy nhroed;
Mae yna genedlaethau yn gorwedd yn dy gol,
Y rhai sy'n bridd er's llawer dydd, a guddiwyd oesau'n ol;
Mae rhywbeth cyssegredig o fewn dy sanctaidd dir;
Wyt dyst o lawer teimlad dwys a llawer deigryn pur
A gollwyd ar dy feddau ar ol anwylion mâd;
Canolbwynt fy meddyliau I yw anwyl *fedd* fy *nhad*.

Mae'th lwydion gerryg beddau yn dweyd fod amser maith
Er pan y rho'w'd y cyntaf un o fewn dy fynwes laith;
A'r llwyni box hynafol a welir yma a thraw,
Bu rhywrai'n ddiwyd iawn, ryw ddydd yn planu rhai'n â'u llaw.
Mae llawer hen bererin, o swn y byd a'i dwrdd,
Yn fud o fewn dy fynwes, fu'n dod i'r Hen Dy Cwrdd,
A'u henwau'n perarogli fel blodau canol ha'—
Rho'wn hèr i'r bedd caddugawl, gwnawn, i bydru enw da.

Adgofion fyrdd eheda i'r fynwent heb nacâd,
Nes tynu, braidd, bortread byw o lawer cyfaill mâd;
Rhyw fangre od yw'r fynwent: mae'n llanw dyn â braw,
Nes peru iddo deimlo 'i fod yn ymyl byd a ddaw.
Hen Fynwent Gellionen! wyt mewn unigol fan:
Yn swn y gwynt a'r awel bur ar ben y mynydd ban;
Na foed i ddim i dori ar dy ddystawrwydd prudd,
Hyd nes daw llef archangel Duw, yr adgyfodiad ddydd.

Cathelyd. Lewis Hopkin.

Y mae'n ymddangos fod y rhai hyny ag sydd yn dywedyd fod oes pregethu athrawiaethol wedi myned heibio yn annghofio fod gwirioniedd yn beth sydd raid i bob cenedl ei ddysgu.—*Western Christian Advocate.*

Y *Royal George* oedd y llong gyntaf a dderbyniodd gopiau o'r Beibl oddiwrth y "Naval & Military Bible Society, 1780," ac y mae yn rhyfedd iddi suddo gerllaw Spithead yn fuan wedi hyny, a 400 o gopïau o'r Beibl ar ei bwrdd.

CYFIAWNDER, TRUGAREDD, A FFYDD.

Cawn fod y natur ddynol yn mhob man wedi ei gwneuthur ar gyfer cyfiawnder, trugaredd, a ffydd. Cawn fod crefydd yn fynych yn dechreu, nid gyda ffydd, ond gyda gweithredoedd. Gwneuthur cyfiawnder. Mae y bwriad i wneuthur cyfiawnder yn gorwedd wrth sail daioni. Gesyd ddyn ar yr iawn ffordd. Y sawl ydynt benderfynol o gyflawnu gorchymmynion eu cydwybod, y sawl a fwriadant gyflawnu pob dyledswydd, y sawl a gadwant eu meddyliau yn agored i wirionedd —mae y rhai hyn ar y llwybr uniawn. Os oes angen gosod llinell i lawr i wahaniaethu rhwng y troedigion a'r annhroedigion, mi wnawn I eu gosod i lawr yn y fan yma.

Mae pob dyn sydd yn ddifrifol yn bwriadu gwneuthur cyfiawnder, i gadw ei hun yn ffyddlawn i'w gydwybod, ac i'w deimlad o ddyledswydd, wedi cymmeryd y cam sydd yn rhanu y cyfryw ydynt yn myned tuag at Dduw oddiwrth y cyfryw ydynt yn myned oddiwrtho. Paham ? Am fod cydwybod yn llais Duw yn yr enaid ac ufudd-dod i gydwybod yn ufudd-dod i Dduw. Mae rhyw ias hyfryd yn pasio trwom pan gyfarfyddom ag un yn ufuddhau i'r ddeddf fawr hon. Gall fod yn saint neu yn ferthyr yn marw dros ei ffydd, neu gall fod yn blentyn yn gwrthwynebu rhyw demtasiwn plentynaidd ; ond y tant a darewir, yr un yw. Perthyn i'r ddau yr un sain, ac y mae'r ddau yn plymio dyfnderoedd yr enaid. Ufudd-dod i'r ddeddf yma yn yr enaid sydd yn gwneyd eglwys gyffredinol Duw, cyfansoddedig o ddynion o bob llwyth, pob amser, pob crefydd. Yn yr orymdaith fawr, dichon rhai fod ar y tu blaen, a rhai y tu ol; ond y maent oll yn cyrchu yr un ffordd, ac y mae pawb ydynt yn ufuddhau i ddeddf cyfiawnder yn perthyn i'r dorf fawr o blant Duw—canlynwyr Duw fel plant anwyl.

Mae pob cais at wneuthur yn iawn yn cangu ein golwg am yr hyn sydd iawn. Felly yr arweinir ni i weled fod yn rhaid i ni, er mwyn gwneuthur cyfiawnder, i "hoffi trugaredd" hefyd. Nid yw y dyn uniawn, o angenrheidrwydd, yn ddyn trugarog ; cawn weithiau fod ei deimlad o uniondeb yn ei wneuthur yn annhrugarog. Fe wel y gwahaniaeth rhwng yr iawn a'r aniawn mor eglur, a theimla'r drwg o ddrwg-weithredu mor fawr, fel nad oes ganddo'n fynych ond ychydig iawn o dynerwch tuag at y drwg-weithredwr. Ceir fod proffwydi mawrion gwirionedd yn fynych yn methu goddef hereticiaid ; eneidiau pur yn ymgadw yn mhell oddiwrth y rhai ydynt wedi eu hystaenio â drwg. Mae yn bossibl, yn ol tystiolaeth Paul, i roddi ein holl dda i borthi y tlawd, a rhoddi ein cyrff i'w llosgi, ac etto, i fod yn amddifad o'r cariad rydd sydd yn hirymarhous ac yn garuaidd. Felly, mae hoffi trugaredd yn ychwanegiad pwysig at wneuthur cyfiawnder.

Caffaeliad mawr yw, os, a ni yn gwneuthur da ein hunain, y gallwn dosturio wrth y cyfryw hyny ydynt yn gwneuthur drwg ; os, a ni yn cael ein cadw gan Dduw oddiwrth ddrwg, y gallwn gydymdeimlo â dyoddefiadau y rhai ydynt yn pechu. Pan fyddo'r elfen yma o drugaredd yn ddiffygiol, cawn fod dynion da yn ymwahanu oddiwrth ddrwg-

weithredwyr, ac felly, yn colli'r cyfleusdra i'w gwneuthur yn well. Mae y llesgni yma i ddal cymmundeb â drwg-weithredwyr yn naturiol ddigon; ond yn annghalonogol iawn i'r dyn sydd wedi troseddu. Os bydd dynion da yn ei ochelyd, arweinir ef i anobaith. Mae cydymdeimlad dynion da yn help mawr i'r cyfryw nad ydynt ddynion da.

Felly, mae arnom angen cam arall tuag i fyny, a daw hwnw pan, at gyfiawnder a gwirionedd, yr ychwanegwn ostyngeiddrwydd. Pan na feddyliwn yn rhy uchel am danom ein hunain, pan welwn ein ffaeleddau ein hunain yn eglur, galluogir ni i dosturio wrth ffaeleddau ereill. Pan yr edrychwn i fyny at Dduw, mor llwm yw ein rhinweddau goreu ni, ac mor ychydig o reswm sydd genym i ddirmygu neb dynion, neu i deimlo anmharch tuag at neb o herwydd ei bechod. Pwy a'n gwnaeth i amrywio? Rhoddes Duw i ni, fe ddichon, well tymheredd (*temperament*), disgyniad oddiwrth hynafiaid purach. Rhoddes Duw i'n maboed ni ddylanwadau dedwyddach, ac arweiniodd ein hieuenctid ar hyd llwybrau mwy tangnefeddus. Pa ddaioni sydd ynom, mae ynom yn fawr o herwydd amgylchiadau felly, a Duw a'n helpiodd ni fel i safle uwch, fel y byddai i ni roi help llaw i ereill ag y mae eu bywyd dan anhawsderau mwy. Rhodiwn yn isel gyda Duw. Y sawl a rodio felly gyda Duw, y sawl sydd ganddo y teimlad o'r presenoldeb Dwyfol, a'r cariad Dwyfol, mae yn ennill nerth mwy ar gyfer pob dyledswydd.

Ffydd yn Nuw, ymddiried isel, diolchgar, mewn cyfaill nefol, yw y cyfrwng i wneuthur cyfiawnder yn un â thrugaredd, a gwneuthur uniondeb a heddwch y naill i gusanu y llall. Cymhellydd cyfiawnder yw deddf dyledswydd; cymhellydd trugaredd yw dymuniad calonog i wneuthur yr holl ddaioni a allo dyn. Felly, mae dyledswydd yn arwain yn naturiol i gariad, cyfiawnder yn addfedu i garedigrwydd, a deddf uniondeb yn cael ei chyflawnu yn neddf cariad.

J. Freeman Clarke.

Y GWIR YN ERBYN Y BYD.

DAMMEG YR APOSTOL PAUL.

Un diwrnod daeth Abdiel o hyd i Paul yn Tarsus, ar ol ei daith i Damascus, yn eistedd yn ddystaw a meddylgar wrth ddrws ei dŷ, ei lyfrau dewisol ac offer ei grefft yn gorwedd yn ddisylw wrth ei ochr. "Yr wyf yn clywed pethau rhyfedd am danoch chwi," meddai y Rabbi. "Yr ydych, mae'n debyg, wedi dyfod yn ddysgybl y dyn o Nazareth. Y fath gwrs yr ydych yn myn'd i gymmeryd ar ol y droedigaeth ryfedd ydych yn son am dani!" "'Rwyf yn myned i bregethu yr Efengyl i'r holl genedloedd," meddai y dysgybl newydd mewn tôn addlfwyn. "Byddaf yn cychwyn yfory." Darfu i'r Rabbi, yr hwn a deimlai rywfath o ddyddordeb yn Paul, edrych arno fel pe byddai yn amheu yr hyn a ddywedai, a gofynodd, "A ydych chwi yn gwybod yr aberth

ydych yn wneyd. Rhaid i chwi adael eich cartref a'ch cyfeillion; cymdeithas y mawr a'r doeth. Cewch weled bywyd caled, a chwi gyfarfyddwch â pheryglon dirif. Cewch brofi tlodi, cewch eich difenwi, eich erlid, eich fflangellu, ac feallai eich gosod i farwolaeth." "Nid oes un o'r pethau hyn," meddai Paul, "yn gwneyd un gwahaniaeth i mi: yr wyf wedi cyfrif y draul. Nid wyf yn prisio bywyd yn ddim mewn cymhariaeth i wrandaw ar lais Duw, cyhoeddi ei wirionedd, a gwneyd ei waith. Mi a rodiaf wrth oleuni Duw, ac nid ofnaf niwed. Nid wyf mwyach yn gaeth wrth hen ddeddf pechod a marwolaeth, ond yn ddyn rhydd Duw, wedi fy rhyddhau trwy ddeddf yspryd y bywyd yn Nghrist Iesu." "Yma," meddai y Rabbi, "y cewch esmwythyd ac enwogrwydd; yn eich gwaith newydd bydd raid i chwi ddyoddef lludded, gwaradwydd, a marwolaeth." "Mae llais Duw yn dywedyd wrthyf am fyn'd," meddai Paul yn wrol, "ac yr wyf yn barod i dreulio ac ymdreulio yn achos y Gwirionedd." "Bydd farw, ynte,' rhuai y Rabbi, "fel ffwl o Nazaread ac atheist annghrediniol fel ag yr ydwyt. Mae yr hwn sydd yn hiraethu ar ol pethau newyddion—sydd yn well ganddo ei argyhoeddiadau penffol, a'r ynfydrwydd sydd yn myned wrth enw cydwybod, nag esmwythyd sylweddol y byd a chynghor ei gyfeillion, yn haeddu marw. Bydd farw, ynte, yn dy ffolineb. O hyn allan yr wyf yn dy ddiarddel. Nid wyf yn gyfaill iti byth mwy."

Aeth blynyddoedd heibio; yr oedd gair Duw yn ennill ac yn myned ar gynnydd. Un diwrnod, sisialodd rhywun yn Tarsus, a rhedodd y gair yn gyflym o enau i enau yn y farchnadfa, "Mae Paul, y gwrthgiliwr, yn gorwedd mewn cadwynau yn Rhufain, yn dysgwyl bob dydd i gael ei daflu i'r llewod. Ei helbul nesaf fydd y diweddaf iddo." A dywedodd Abdiel wrth frodyr offeiriadol yn y synagog, "Yr oeddwn yn gwybod mai fel hyn y byddai hi. Pa faint gwell fyddai iddo pe byddai wedi glynu wrth ei grefft, hen ffyrdd ei dad a'r proffwydi, a pheidio gofalu am lais y gydwybod y soniai gymmaint am dani? Gallasai fod wedi byw yn barchus a chyrhaedd henaint anrhydeddus yn Tarsus, a bod yn dad i feibion a merched. Gallasai dynion fod yn ei alw yn Rabbi yn yr heolydd." Yn y modd hwn yr oedd yn Tarsus. Ond yn y cyfamser eisteddai Paul yn dawel ac ymostyngol; ac nid heb fesur mawr o'r tangnefedd sydd uwchlaw pob gwybodaeth yn y ddaeargell yn Rhufain. Safodd yr Arglwydd wrth ei ochr mewn gweledigaeth, a dywedodd, "Nac ofna, Paul. Ti a ymdrechaist ymdrech deg. Wele yr wyf gyda thi hyd ddiwedd y byd." Atebai yr hen wr tawel a gwrol, "Mi a wn i bwy y credais; ac mae yn ddiamheu genyf ei fod Ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw. Ni roddes Duw i mi yspryd ofn, ond yspryd nerth a chariad a phwyll. Mi a orphenaf fy ngyrfa mewn llawenydd, oblegyd rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, ac yn awr mae fy iachawdwriaeth yn nes nâ phan gredaswn." Ac yn ei galon y llefarodd y llais hwnw a lefarodd unwaith o'r blaen ar fynydd y gweddnewidiad, "Hwn hefyd yw fy anwyl fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd."

THEODORE PARKER.

PA BETH MAE RHYDDID EGLWYSIG YN EI WIR OLYGU?

Ysgrifena y Parch. Brooke Herford fel hyn:—Cyflawnir y fath bethau cywrain yn fynych yn enw rhyddid, fel y mae yn dda i ni ddeall, mor eglur ag y caniata y pwnc, pa beth a olyga fel y cymhwysir ef at fywyd eglwysig. Y mae wedi bod bob amser yn rhagorfraint ein heglwysi Undodaidd yn Nghymru, Lloegr, ac America, i ddal ac amddiffyn ein sefydliadau yn y modd mwyaf rhydd, llydan, ac agored ag yr anturiwyd arno erioed gan unrhyw gorff crefyddol. Mae unrhyw ddyn yn rhydd i ymuno ag un o'n heglwysi, hyd y nod i ddyfod i'n cymdeithas agosaf a'n cymmundeb, heb unrhyw ymholiad. Ystyriwn hyn yn syml fel cwestiwn i bob dyn ei hunan, pa un a yw yn teimlo digon o gydymdeimlad â'n hamcan, ein dulliau, a'n haddoliad, fel ag i ddymuno perthyn i ni. Os felly, deued atom. Hyd y nod wrth fyned i fewn i'n colegau, neu pan yn ymgymmeryd â'n gweinidogaeth, ni orfodir neb i bennodi ei grediniaeth. Yr hyn geisiwn ac yr holwn ni yn ei gylch yw, A ydyw yn ddyn meddylgar a chrefyddol, yn credu yn ddifrifol yn sylweddau canolog crefydd—Duw, addoliad, anfarwoldeb, a dyledswydd? A oes ynddo ryw addewid neu gymhwysder i gynnorthwyo ereill yn yr yrfa a'r bywyd crefyddol? Os felly, croesawn ef. Modd bynag, nid yw yr absenoldeb hwn o unrhyw "gredo," yn nghylch y pethau hyn, erioed wedi bod oblegyd nad yw ein heglwysi wedi gofalu digon iddynt i'w pennodi, ond o herwydd eu bod wedi teimlo nad yw deffiniadau sychion, noethion, yn ddigonol, ac yn fynych yn fagl. Felly, yr ydym wedi gwrthod pennodi yn awdurdodol hyd y nod "grefydd" a "Christion," ond nid oblegyd eu bod yn ddiystyr a gwag. Yr ydym wedi pleidleisio yn erbyn unrhyw ymdrech swyddogol i bennodi neu ddeffinio Undodiaeth; ond etto, nid oblegyd un diffyg o ystyr ynddi. Gorwedda y pwynt sylweddol hwn, ac y mae ystyr y geiriau hyn yn eglur ddigon, yn y canolbwynt *(centre)*; nid yw ond yn ansefydlog neu yn anmhennodol yn y cylchedd *(circumference)*. Ond gan hyny, pa fwyaf y gwrthodwn i bennodi y cylchedd, mwyaf i gyd y mae yn angenrheidiol i gadw y canolbwynt mewn golwg yn eglur a digamsyniol. Yn awr, y mae ystyr canolog "crefydd" ac "eglwys" wedi bod yn eglur ddigon bob amser—Duw ac addoliad Duw. Felly y mae ystyr canolog "Cristionogaeth"—parch i Grist a'i addysg neu ei ddysgeidiaeth. Felly hefyd mae ystyr canolog "Undodiaeth"—crediniaeth yn Undod Duw, fel yn cael ei hynodi oddiwrth athrawiaethau anamlwg neu amhwys a dyrys y Trindod.

Felly, er y gall fod yr absenoldeb mwyaf cyflawn o unrhyw derfyn neu ffin ddynwaredol neu gelfawl yn ein cyssylltiad â'n perthynas o amgylch y canolbwyntiau hyn, y mae yn rhaid fod, bob amser, gyffiniau neillduol naturiol. Y mae pob cymdeithas i unrhyw amcan da yn rhwym o fod yn gymdeithas o'r sawl sydd yn credu yn yr amcan hwnw. Felly y mae, nid mewn crefydd yn unig, ond hefyd gydag holl faterion bydol. Cymmerwn fferylliaeth, er enghraifft. Nid yw

ymddiriedolwyr coleg yn gofyn i'w proffeswr fferylliaeth lawnodi credo. Yr hyn a wnaut yw, sicrhau eu hunain, wedi ymchwiliad ac ymgynghoriad â'u gilydd, pa un a yw neu nad yw yn deall ei bwnc, ac yn teimlo gwir ddyddordeb ynddo, a pha un a ydyw neu nad yw y person iawn a chymhwys i'w gyflogi, gan adael iddo, fel y dywedent, berffaith ryddid fferyllol. Ac etto, pe cawsent ar ddeall maes o law ei fod ef wedi dyfod i'r casgliad o gredu mai *nonsense* i gyd yw fferylliaeth, a'i fod yn troi ei weithfa i ymdrechle neu i ddarllenfa, bid sicr, buasai yr ymddiriedolwyr yn dweyd wrtho fod yn rhaid iddynt ddysgwyl allan am ryw ddyn arall, ac ni fuasai neb yn crio allan eu bod yn fradychwyr i'w proffes o ryddid fferyllol.

Yn awr, felly yn union gyda golwg ar ryddid crefyddol, a'r gwaith o arwain a gweinyddu yn yr eglwys. Nid yw ein heglwysi yn gofyn i ddyn, cyn rhoddi galwad iddo, i bennodi ei grediniaeth yn Nuw, neu yn Undodiaeth, neu mewn addoliad, nac yn unrhyw ran o'r grefydd hon ag sydd, ar yr un pryd, yn ganolbwynt a gwrthddrych eu bodolaeth. Y maent yn ei wahodd i arwain eu haddoliad, ac i weinidogaethu iddynt mewn bywyd crefyddol; ond os, yn nghwrs amser a'r cyfnewidiadau hyny a gymmerant le yn aml ar y fath amser â'r un presenol, y daw heb unrhyw grediniaeth o gwbl yn Nuw—dim un grediniaeth fyddo yn caniatau gwir addoliad, a all fod un amheuaeth gyda golwg ar ba beth ddylid wneyd? Un o'r cwestiynau mwyaf anhawdd a chynnil yw, penderfynu yn foddhaol ar ba bwynt, yn y cyfnewidiadau yn syniadau crefyddol dyn, y darfydda fod yn perthyn yn deg i'r eglwysi ag yr oedd yn gyssylltiedig â hwynt. Mae y cwestiwn mor anhawdd a chynnil, fel y mae Undodiaid wedi ei adael i gael ei farnu gan bob dyn drosto ei hun, dim ond ymgymmeryd â gweithred eglwysig pan fyddo achosion o anaddasrwydd amlwg yn galw am hyny. Credwn ni mai dyma y ffordd oreu. Bydded i bob dyn weled ei fod yn barnu yn gyfiawn gyda golwg ar hyn, i gymmeryd y mater dan ei ystyriaeth ddwys a difrifol, ac nid yn unig i'w osod o'r neilldu ar y tir, gan nad yw ei ryddid crefyddol yn beth terfynol, nad oes dim i'w gymmeryd dan ystyriaeth. Mae y ffaith nad yw Undodiaeth yn gosod i fyny derfynau dynwaredol neu *artificial* i'w rhyddid yn peru iddo fod yn fwy rhwymedig i ddynion gydnabod terfynau naturiol i bob cymdeithas, naill ai er gweithio neu addoli.

Mae y ffaith fod Undodiaeth yn gadael hyd y nod y terfynau naturiol i gael eu barnu gan bob dyn drosto ef ei hunan yn gosod i lawr rwymedigaeth fwy ar bob dyn gonest i dalu sylw yn ffyddlon iddynt. Nyni a bleidiwn bob amser hen ddidwylledd a rhyddid ein heglwysi Undodaidd; ond y mae yn rhaid i ni hefyd honi, gyda'n holl egni, mai pa fwyaf i gyd y gadawn ein bywyd eglwysig yn agored yn y cylchedd, mwyaf hefyd y mae yn rhaid i ni gadw ei ganolbwynt yn ddysglaer, ac yn glir a digamsyniol, yn y sylweddau mawrion hyny o ffydd, addoliad, a bywyd tragwyddol, heb y rhai y mae yr eglwys wedi darfod à bod. Bydded i ni lynu wrth eglwys rydd, ond nid yw eglwys rydd yn golygu dim eglwys o gwbl.—*Unitarian* (E.)

YMDDIRIED (Wesley).

Cyflwyna d' alar oll a'th ffyrdd i'w ddwylaw Ef—
I'w ofal tyner Ef, yr Hwn sy'n llywio dae'r a nef.

Ymddiried yn dy Dduw, ac yn ei ffyrdd parha;
Sefydla'th lygad ar ei air, a'th waith yn ffyddlon gwna.

Un lles it' byth ni ddaw trwy bryder yn un man;
Cyflwyna d' achos iddo Ef a wrendy weddi'r gwan.

Gad d' ofnau gyda'r gwynt, a'th obaith tua'r nen;
Gwel Duw dy ddagrau, clyw dy lef, a chwyd dy ben i'r lan.

Trwy stormydd o bob rhyw yn d' arwain byth y bydd;
Bydd ymarhous, dy dduaf nos derfyna'n ddysglaer ddydd.

Y CWRDD BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd y cwrdd blynyddol dydd Mercher a dydd Iau, y 23ain a'r 24ain o Fehefin, yn Rhydygwin a Chiliau. Nos Fercher, am saith, yn Rhydygwin. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Williams, Penrhiw, a phregethodd y Parch. W. Parry, Penbontarogwr, oddiwrth Col. iii. 2, "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod, nid ar bethau sydd ar y ddaear." Ar ei ol, pregethodd y Parch. J. Davies, Allltyplaca, oddiwrth Phil. iii. 9, "Ac y'm cair ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd."

Dechreuwyd y gwasanaeth yn Nghiliau dydd Iau, am ddeg, gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a phregethodd y Parch. W. James, Llandyssul, y bregeth, oddiwrth 1 Cor. viii. 6, "Eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn mae pob peth, a ninau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninau trwyddo ef." Ar ol y bregeth, cafwyd cynnadledd, a phwnc y gynnadledd oedd, "A ydyw yn ddyledswydd ar Undodiaid i ddysgu pynciau gwahaniaethol yr athrawiaeth Undodaidd i blant yn eu Hysgolion Sul?" Dechreuwyd y gynnadledd trwy ddarllen papyr ar y pwnc gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a llefarwyd arno gan amryw o weinidogion ac ereill; a therfynwyd y gynnadledd gan y Parch. E. W. Lloyd. Y peth nesaf oedd, "Pa le mae y cwrdd blynyddol nesaf i fod?" a chynnygiwyd y bydd iddo fod yn Nghapelygroes, yn yr amser arferol, y flwyddyn nesaf. Cynnygiwyd, hefyd, fod y cyfarfod chwarterol, yr Hydref, i fod yn y Wig, ger Penbontarogwy.

Ar ol i'r gynnulleidfa luosog oedd wedi dyfod yn nghyd gael amser i gael lluniaeth (y gweinidogion yn Nhynant, lle maent wedi arfer bod

bob amser pan yn ymweled â Hen Gapel y Ciliau, a dyeithriaid mewn gwahanol fanau yn y gymmydogaeth, lle yr oedd digon o ddarpariaeth wedi ei wneyd ar eu cyfer, a chroesaw hefyd i bawb gael digon o luniaeth), am hanner awr wedi dau yn y prydnawn, darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Parry, a phregethodd y Parch. R. J. Jones, Aberdar, oddiwrth Heb. x. 31, "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw." Ar ei ol, pregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach. Cafwyd cwrdd da o'r dechreu, pregethau da, a gwrandawiad astud. Tywydd dymunol i ddynion ddyfod yn nghyd o bell ac agos. Yr unig annghyssur oedd, fod Hen Gapel y Ciliau yn llawer rhy fach i gynnwys y dyrfa oedd wedi dyfod at eu gilydd, boreu dydd Iau. Er mor annghyfleus ydoedd, o herwydd fod y capel yn rhy fychan, dangosodd y gynnulleidfa, trwy ei hamynedd a'i gwrandawiad astud, ei bod yn teimlo dyddordeb yn yr hyn a draddodid. Gobeithio y bydd i argraff dda aros ar ei ol, ac y bydd dan fendith Duw er lles i'r gymmydogaeth. W. R.

EBION O IOWA.

COSPEDIGAETH PECHOD.

(O'r "Drych" Americanaidd.)

Rhif IV.

Ystyriwn yn ddifrifol pa un ai y golygiad a gyfrifir yn *orthodox*, ai ynte y golygiad rhyddfrydig ar y pwnc, yw

Y SYNIAD MWYAF PERYGLUS.

Mae dysgu dynion y gallant fyw yn annuwiol trwy eu holl oes ddacarol, a dianc rhag y gyfiawn gosp trwy ryw dric o drosglwyddiad, os credir hyny ar fin marw, yn ymddangos i mi yn addysg peryglus iawn; agos mor beryglus ag ydoedd ynfydrwydd yr hen *Universalists* gynt, pan ddysgent fod angeu yn gwneyd sant nefol mewn munyd o'r anfad-ddyn mwyaf llygredig. Os dysgir dynion fod pob munyd o esgeuluso dyledswyddau, a phob trosedd o ddeddfau Duw yn dwyn anocheladwy gyfiawn gosp ar bob esgeuluswr a throseddwr, onid oes tuedd yn yr addysg hwnw i beru i ddynion ochel drwg yn *barhaus*, yn hytrach na dybynu ar ryw adeg fach ansier cyn marw i *slipio* o afael cyfiawnder? Gwn yn dda fod brodyr orthodoxaidd yn dysgu yr angenrheidrwydd o *fyw* yn ddiwiol, ond mae y possiblrwydd o ochel cyfiawnder ychydig o funydau cyn marw yn y gyfundrefn hono o achubiaeth *by proxy*. A dysgir hi i rai o'r cymmeriadau mwyaf anfad ar grogbrenau.

Heblaw hyny, pan ddesgrifir cosp pechod mor eithafol ac anfeidrol greulon, y mae tuedd yn hyny i yru dynion i ddwfn annghredu yn yr hyn a ymddengys mor ofnadwy o afresymol, pryd y byddai yn haws o lawer eu cael i ochel yr hyn a ymddangosai yn bossibl a rhesymol iddynt. Er enghraifft, pan ddysgir fod geneth hynaws, gariadus, rinweddol, a ddygwyddo farw heb gredu mewn iachawdwriaeth drosglwyddedig, i gael ei phoeni mewn tân arteithiol, heb obaith ymwared byth; a hen buteiniwr a lleidr a llofrudd a gredo mewn iachawdwriaeth felly ddau funyd cyn ei hyrddio gan ddeddf ei wlad i'r byd arall, yn cael gymmeryd i'r nefoedd lân a hyfryd. Wel, mewn difrif, onid yw hyny yn groes i bob rheswm ond un wedi ei ddallu yn hollol gan ragfarn? Ac heblaw hyny, gan mai *cariad at Dduw*, yn hytrach nag ofn cosp, yw enaid a hanfod crefydd, onid yw dysgu fod pob loes a ddaw oddiwrth Dduw yn ddysgyblaeth cariad er lleshad dyn, yn fwy tueddol i ddwyn dyn i garu Duw, ac felly i fod yn gadwedig, na dysgu y poena Duw yn ddiobaith ymwared byth, bob un o'i blant—[Diffyg yn y copi.]

* * * * *

hwn, goddefer i mi ddangos etto, fel y dangosais lawer gwaith, nad oes dim anffaeledigaeth i'w gael yn y byd yma, yn y materion hyn. Ofer hollol yw i'n brodyr orthodoxaidd ddweyd wrthym fod y Beibl yn penderfynu y mater yn anffaeledig o'u tu hwy. Yr ydym yn addef eu bod hwy yn onest wrth ddweyd yr *ymddengys* y Beibl iddynt *hwy* yn dysgu eu credo hwy. Ond y mae dynion mor ddysgedig a hwythau, mor awyddus am y gwir a hwythau, mor chwilgar yn y Beibl a chyfarwydd â'r Beibl a hwythau, ac mor loew eu cymmeriadau Cristionogol a hwythau, ac mor barod a hwythau i aberthu cyfeillion er mwyn y gwir, yn methu yn lân a gonest farnu fod y Beibl yn dysgu y fath athrawiaeth galed am Dduw. Ac yn awr, pa le y ceir rhywun digon mawr, sydd yn deall yn *anffaeledig* beth yw meddwl y Beibl, fel y penderfyno efe rhwng y dysgedigion hyn? Y ffaith amlwg yw nad oes neb anffaeledig felly i'w gael ar y ddaear. Pa sawl gwaith etto y rhaid dangos hyn i frodyr na fynant weled yr hyn sydd mor amlwg? Ac heblaw hyny, dylai y brodyr anwyl "uniongred" sydd yn son cymmaint am anffaeledigacth y Beibl ddeall, erbyn hyn, mai nid *Hollwybodaeth* ac *anffaeledigaeth* yw *ysprydoliaeth* dynion sanctaidd. Gan mai iaith ddynol, gramadeg ddynol, a rheitheg ddynol sydd yn y Beibl, a bod pob iaith ddynol yn ffaeledig ac anmherffaith, rhaid fod anmherffeithrwydd dynol yn y Llyfr sanctaidd hwnw. Er y pery y Beibl cyssegrlan yn awdurdod mawr, anwyl mewn crefydd, amlwg yw nad yw cannoedd o ddysgedigion sydd yn mawr barchu a charu y Beibl yn ei gymmeryd yn anffaeledig o ran yr hyn oll a ddywed am greadigaeth, amseryddiaeth, ieithyddiaeth, seryddiaeth, dacaregiaeth, a llawer o iaethau ereill.

Pa leshad i'r byd yw ceisio celu ffeithiau mor amlwg a hyn—sef fod cannoedd o athrawon a gyfrifir yn *orthodox*, mewn colegau yn Ewrop ac America, nad ydynt yn cyfrif y Beibl yn anffaeledig? Mi wn yn dda y gwgir arnaf fi fychan am fynegu hyn o wir i ddarllenwyr y

Drych, ond nid oes neb a faidd wadu yr hyn a ddywedais, er hyny, heb osod ei hun yn agored i wawd pob darllenydd cyfarwydd â llenyddiaeth yr oes. Y mae son, gan hyny, am benderfynu yn anffaeledig yn nghylch y gwahaniaeth rhwng *orthodoxy* a *Liberal Christianity* o berthynas i gospedigaeth pechod, yr un peth yn union i ni ag ydyw son am anffaeledigaeth *Pio Nono* wrth Brotestaniad deallus. Pa bryd bynag y boddlonir fy rheswm a'r natur foesol a roddodd Duw i mi, fod y Duw Hollddoeth yn sier o boenydio am byth bob enaid na chredo mewn iachawdwriaeth trwy ddaioni un arall yn lle daioni personol yr enaid achubedig ei hun, myfi a dderbyniaf yr athrawiaeth hono. Nis gallaf ei derbyn heb y prawf a'm boddlona felly. Lled ddiwerth hefyd yw

DYFYNU ADNODAU O'R BEIBL

i benderfynu yn nghylch y pwnc hwn. Mi wn yn dda am bob adnod a ddyfynwyd gannoedd o weithiau i geisio profi y syniadau am gosp pechod a ymddangosant i mi mor afresymol; ac mi wn hefyd am yr atebion cryfion a roddwyd i'r rhai a ddyfynent y cyfryw adnodau. Ond os bydd rhywun yn dymuno dyfynu yr adnodau hyny etto yn y *Drych*, a'r rhesymau yn nglyn â hwy, boddlon wyf fi, gan hyderu y caniateir i minau y cyfleusdra i ddangos fod yn hawdd, ar dir rhesymol, esponio yr adnodau hyny yn unol iawn â'r golygiadau rhyddfrydig am gospeligaeth pechod ac iachawdwriaeth dragywyddol dynion. Mae y pwnc hwn mor eang, nes y mae yn anhawdd gwybod pa bryd i derfynu sylwadau arno. Ac am wn I nad waeth terfynu y gyfres hon yn y fan yma.—Yr eiddoch yn ffaeledig,

Marion, Iowa, Gorph. 17, 1873. R. L. HERBERT.

YR ETHOLIADAU.

MAE brwydr fawr yr etholiadau drosodd, er fod yn rhaid addef nad yn gwbl fel yr oedd y rhan amlaf o honom yn gobeithio. Diolch fod Cymru wedi dyfod allan, ar y cyfan, yn dda iawn, gyda mwyrif ei gallu bychan hi i ddal i fyny yr egwyddor Ryddfrydig yn St. Stephan. Dau enw, mewn gwirionedd, oedd o flaen yr etholwyr, sef eiddo Salisbury ac eiddo Gladstone; a dwy egwyddor, y Geidwadol neu y Rhyddfrydig; gyda'r un pwnc neilldnol, yn ei ddau agwedd, rhoi Llywodraeth Gartrefol i'r Iwerddon fel yr oedd Mr. Gladstone am wneuthur, neu beidio ei rhoi; rhoi Llywodraeth Gartrefol i'r Iwerddon mewn ufuddod i'w gofynion bron unfrydol ei hunan, sef llais 86 o'i haelodau allan o 103, neu beidio rhoi. O herwydd peidio cadw mewn golwg yr un pwnc mewn dadl, ofnir nad yw yr etholiad diweddaf ddim wedi penderfynu dim. Ond da genym fod Cymru wedi dyfod allan yn gryf o du Gladstone.

Yr un pwnc yn y *front* etto yw pwnc yr Iwerddon, gyda'r gwahaniaeth dirfawr hwn ei fod yn llaw y Toriaid yn awr yn lle bod yn llaw

Mr. Gladstone. Yr unig gynllun awgrymedig gan Salisbury cyn yr etholiadau oedd, ugain mlynedd o'r hen gynllun—cynllun gormes, nad yw erioed wedi gwneuthur un lles gwirioneddol hyd yma; ond pa beth fydd ei gynllun yn awr, y mae yn anhawdd gwybod. Peth sicr yw, ni phesir un ddeddf gormes trwy y Ty Cyffredin presenol; o leiaf, gobeithiwn fod y defnyddiau Rhyddfrydig yn y tŷ yn rhy gryfion i ganiatau hyny.

Gellir meddwl wrth ddarllen yr hyn mae'r "Ystafellyddion," begian pardwn, yr hyn mae'r Chamberlain-yddion yn ei ddywedyd, fod trefniant mesurau y dyfodol yn eu dwylaw hwy. Ond "bobl anwyl!" pa le mae sail gorpywys y gobaith hwn? Nid oedd gan y blaid hon un gallu o'r blaen i drefnu gyda'i 94 o rifedi, bydd ganddynt lai yn awr pan nad ydynt ond 75; yr oedd ganddynt y gallu o'r blaen i ddwyn annhrefn a dyryswch, bydd ganddynt y gallu hwnw etto, ond bydd yn llai. Gofynir llai o allu i dynu adeilad i lawr nag i'w godi i fyny. Y cwbl wnaeth y Chamberlain-yddion oedd agor y drws a gollwng y Toriaid i fewn. Hwy ydynt y lleiaf o'r pedair plaid fyddant yn y Senedd nesaf, ac y maent yn camsynied i feddwl mai hwy fyddant y "llyw" bychan yn cyfarwyddo symmudiadau llong y wladwriaeth yn y Senedddymhor nesaf. Hwy fyddant y gallu lleiaf, ac ni fyddant hyd y nod fel y gallu lleiaf yn allu unfrydol—ni fyddant unfrydol ond mewn rhwystro. Pan eir i benderfynu y pwnc mawr, ceir gweled Chamberlain a'i geraint yn cymmeryd un llwybr, a Hartington a'i geraint yntau yn cymmeryd llwybr arall. Camsyniant yn ddirfawr wrth feddwl y gellir llywodraethu symmudiadau ei gorfydd ei gynffon.

Ymffrost y Chamberlain-yddion yw, fod llais y *ballot box* wedi bod o'u tu hwy; ond sut ar y ddaear y dichon hyny fod, pan y maent hwy wedi cael eu lleihau rhyw 18 neu 20 mewn nifer? Y cwbl wnaethant hwy oedd, ychwanegu pleidwyr Salisbury, a gellid meddwl y dylai hyny fod yn gywilydd iddynt, yn lle bod yn bwnc o ymffrost. Gwir fod enwau Chamberlain a Hartington, dynion y teimlid parch tuag atynt fel Rhyddfrydwyr, wedi arwain rhai Rhyddfrydwyr llac ar gyfeiliorn; gwir fod papyrau Llundain, fel arfer, wedi ploidio y *classes* ac yn erbyn y *masses*; ond can wired a hyny, mae y blaid Ryddfrydig o du Gladstone; a cheir gweled mai gan Gladstone fydd y dylanwad cryfaf ar ol Salisbury yn y Senedd nesaf—*ar ol*, fel y mae gwaethaf y modd.

Dichon y ceisia Salisbury, gydag help yr Undebwyr, ffurfio mesur fydd yn dderbyniol gan yr Iwerddon, ond ni lwyddant; ac heb foddloni yr Iwerddon, ni fydd yr un mesur o werth. Ni ddichon gwyr yr "Undeb Papyr," y "*Paper Unionists*," fel y geilw Gladstone hwy, ffurfio un mesur fydd yn dderbyniol gan y rhai y bwriedir y mesur iddynt. Ceisiodd Gladstone am sail undeb ar galonau y bobl, a derbyniodd gymmeradwyaeth unfrydol y blaid Wyddelig; ac heb eu cymmeradwyaeth hwy, ni fydd un mesur yn benderfyniad ar y pwnc. Ceisied Salisbury fesur ar hyd llinellau mesur Mr. Gladstone, a dichon y gwneir rhywbeth. Ni feiddia wneuthur hyny yn bresenol, feallai. Rhaid *educatio*'r parti. Ond ni fydd neb yn synu gweled y Toriaid yn

pasio mesur Mr. Gladstone. Yr ydym o'r blaen wedi gweled y Toriaid yn gwrthwynebu mesur pwysig o eiddo Gladstone un flwyddyn—yn ei wrthwynebu fel pe byddent yn tybied fod dyogelwch y deyrnas yn dybynu ar hyny; ac etto, yn y flwyddyn ar ol hyny, yn pasio mesur oedd yn cynnwys yr oll oedd Mr. Gladstone yn ei ofyn, a rhagor.

Mae yr Undebwyr, fel y galwant eu hunain, wedi llwyddo i rwystro symmudiad cerbyd y blaen-fynediant dros dymhor; eithr dim ond dros dymhor. Yn y blaen mae yn rhaid myned o hyd, yn nghyfeiriad cyfiawnder a'r lles cyffredin—lles mwyaf y rhifedi mwyaf. Os yw y trai yn awr, fe ddaw y llanw etto. Dywed Salisbury nad yw y Celt, hyny yw, y Gwyddel, yr Ysgotiad, a'r Cymro, ddim yn *fit* i lywodraethu; nid oes neb yn *fit* i hyny ond y Teuton, hyny yw, y Sais; a dyna yw syniad y Sais. Tori yw y Sais yn naturiol ac fel rheol; tra mae y Gwyddel, yr Ysgotiad, a'r Cymro, yn eithriadol yn Dori, ond yn naturiol yn . . . . . RAD.

NODYNAU GWASGAROG.

Dywedir fod y Pabyddion yn hoff o *joke* hyd y nod ar y Pab ei hunan, ac y mae ganddynt hanesyn am un Pab oedd yn hoff iawn o'r gwin, yr hwn, pan ddaeth i'r nefoedd a'i allwedd yn ei law—credant fod pob Pab yn meddu y gallu i gloi a dadgloi pyrth y nefoedd—ond cafodd hwn, er syndod iddo, ei fod yn methu agor y porth. Clywodd yr Apostol Petr y swn wrth dwll y clo, a daeth er gweled beth oedd yn bod; a phan adnabu mai'r Pab oedd yno, agorodd y drws iddo, a gofynodd iddo p'am na fuasai yn gollwng ei hunan i mewn. Dywedodd y Pab nad oedd dim o'r allwedd yn ffitio y clo; edrychodd Petr, a dywedodd, "Yr ydych wedi d'od ag allwedd y *wine-cellar* genych yn lle'r allwedd iawn."

BRYN CALFARIA.

Cawn lawer o son yn ein llenyddiaeth Gymreig am y "Bryn." Brithir y llyfrau emynau â chyfeiriadau at y Bryn:—

"Draw ar goppa *bryn* Golgotha bu'r ymladdfa fwya' 'rioed!
Yr Oen, heb gleddyf na gryn arfau, 'n sathru'r dreigiau dan ei droed."

"Gorphenwyd ar Galfaria *fryn* yr iachawdwriaeth fawr,
Cyhoedder y newyddion hyn o gwmpas daear lawr."

"'R Efengyl a bregethir nid yw hi ddim ond hyn—
Mynegu'r weithred ryfedd wnaed ar Galfaria *fryn*."

Mewn cân o eiddo Carneddog yn *Cyfaill yr Aelwyd* am Gorphenaf diweddaf, tudalen 287, darllenwn—

"Ac os cawn Un i'n caru, 'y brawd fu ar y *bryn*,'
Hen hymnau anwyl Cymru adseiniwn yn y glyn!"

O bossibl mai "Sinai fryn" awgrymodd Galfaria fryn; o leiaf, fe'u cyssylltir yn aml gan y beirdd:—

"Wele Sinai a Chalfaria heddyw wedi d'od yn nghyd."

Nid wyf yn cofio un enghraifft o "Galfaria *fryn*" yn llyfrau emynau yr Undodiaid. A thebyg iawn fod emynwyr Undodaidd yn gwybod, megys nad oes sail i'r dychymygion yn nghylch yr "ymladdfa" a'r "weithred ryfedd" a ddesgrifir fel pwnc mawr yr Efengyl boblogaidd, felly nad oes sail i'r syniad am *fryn* Calfaria. Byddai yn ddyddorol gwybod a oes sail yn ngeiriau Crist, neu hyd y nod yn yr Efengylau mai y "weithred ryfedd" ar Galfaria yw yr hyn feddylir wrth *efengyl*, hyny yw, newydd da, yn yr Ysgrythyrau. O leiaf, beiddiwn ddywedyd hyn, nad oes rhithyn o sail yn yr Ysgrythyrau i alw lle'r croeshoeliad yn *fryn* Calfaria, ac nid oes rhithyn o sail gwirioneddol yn un man arall mai ar "fryn" o gwbl y croeshoeliwyd yr Iesu.

S. N. S.

Y PARCH. PHILLIP PUGH.

Yn ol "Eglwysi Annibynol Cymru," III., 87, ceir *entry* gan Pugh yn ei ddyddiadur, dan Gorphenaf 13, 1774, yn yr hwn y dywed, "Yr ydwyf heddyw yn edrych arnaf fy hun fel dyn unig, wedi fy nghadael yn yr anialwch wrthyf fy hunan. Mae fy nghyfeillion a'm perthynasau anwyl yn ol y cnawd wedi fy ngadael, a myned i ffordd yr holl ddaear o m blaen. . . . Nid oes genyf yn bresenol na thad na mam, na phriod nac un plentyn y byd hwn i lawenhau ynddynt, i obeithio am un cyssur oddiwrthynt, nac i ofidio yn eu cylch."

Bu farw y Parch. Phillip Pugh, Gorphenaf 12, 1760, yn 81 oed.

Sut y cyssonir yr uchod â'r syniad poblogaidd fod Phillip Pugh, Yswain, o'r Tyglyn-uchaf, yn fab iddo? Pa bryd y bu'r Phillip Pugh hwn farw, a pha faint oedd ei oed ar y pryd? Yr oedd yn fyw o leiaf ran o'r amser oedd y Parch. D. Davis, wedi hyny o Gastell Hywel, yn trigianu yn nghymmydogaeth y Ciliau. Yr oedd hyny o 1769 hyd 1783. Yn 1783 y symmudodd D. D. o'r Plasbach i Gastell Hywel.

DYDDIADUR T. DAVIES, CAERONEN (GWEL *Ymofynydd*, 1885).

Y Parch. a'r anwyl Mr. Phillip Pugh a symmudwyd oddiwrth ei lafur yma i'w dragywyddol orphwysfa tua naw o'r gloch dydd Sadwrn, Gorph. 12, 1760, ac a gladdwyd ar y 15fed yn Llanddewi-Brefi. Mi a wasanaethais gydag ef fel mab gyda thad 27 mlynedd a thua dau fis. Yr Hollalluog Dduw a'm cynnorthwyo i'w ddylyn, ac i orphen fel y gwnaeth efe. Fe werthfawrogir ei enw a'i goffadwriaeth yn fawr genyf.

Gorphenaf 9fed, 1761, yr ymadawodd fy chwaer, Jane Davies, Bailie, â'r fuchedd hon tua thri o'r gloch y boreu, wedi bod yn glaf am ddau fis. Claddwyd yn Nghellan, ar y 10fed, sef dydd Ffair Beder.

Pregethodd y Parch. David Lloyd oddiwrth Job xvi. a'r adnod olaf. [Tebyg genyf fod gwall yma, 9 feallai yn lle 7.]

Y Parch. Evan Thomas, Marshfield, a fu farw Mehefin 14, 1762, sef y dydd y claddwyd Mrs. Pugh, o Goedmor.

Mrs. Pugh o Goedmor a fu farw Mehefin 11, 1762, ac a gladdwyd ar y 14eg yn Pencarreg.

Mrs. Pugh o Clynmarch a fu farw yn Nghaerfyrddin, Ebrill 16, 1768, ac a gladdwyd yn Llansawel Ebrill 19.

Fy anwyl a'r Parch. Evan Davies, o Billerica, yn Essex, a fu farw Hydref 16, 1770, yn y 76 mlwydd o'i oedran, fel yr wyf yn bwrw, gan ei fod tua 15eg mlwydd yn hŷn na myfi. Bu byw 2 flynedd a 3 diwrnod ar ol fy anwyl David.

Ceir a ganlyn yn Eglwys Cellan: "Underneath are interred the remains of Sarah, the wife of Evan Davies of Bailie, in this Parish, who died July the 28th, 1785, aged 44 years." *(Meyrick's Cardigan*, p. 220).

DYFFRYN AERON.

Pwy oedd y "Cardiganshire poet" a gyfansoddodd y llinellau canlynol wrth fyned o ben Trichrug i Dalsarn? Dywed Meyrick (1810), eu bod wedi eu cyfansoddi tua 25 mlynedd yn ol. *Hist. of Cardigan*, p. 283.

Sweet Aeron's Vale unknown in song,
Demands the warbling lyre;
Shall silvery Aeron glide along
And not a bard inspire?
What bard that Aeron sees can fail
To sing the charms of Aeron's Vale?

There golden treasure swells the plains,
And herds and flocks are there;
And there the God of Plenty reigns
Triumphant all the year:
The nymphs are gay, the swains are hale;
Such blessings dwell in Aeron's Vale.

While every boast through Albion vies
In dubious competition;
And female charms contend the prize
Of beauty's high ambition;
E'en Aeron's beauties must prevail,
For angels dwell in Aeron's Vale.

Were I possessed of regal state,
Presiding o'er a nation,
With crowding senates at my feet
In humble adoration,
I'd envy, if envying might avail,
The happy swains of Aeron's Vale.

A oedd rhywun yn yr ardal tua'r adeg grybwylledig, heblaw yr hen Ddafis, a allasai gyfansoddi'r llinellau hyn?

I'r un bardd y priodolir y pennill hwn:—

Os oes im' elyn, boed i'w ran
Y felldith annhrugarog,
Fyn'd wrtho'i hunan wedi nos
Dros gefen Rhos y Miniog.

If I've a foe deserves my hate,
The dreadful fate betide him,
To go by night o'er Miniog bog
Without e'en dog to guide him.

Y FFORDD I ATEB YR ATHEIST.

Yr Archddiacon Farrar sydd yn dywedyd:—"Os dygwydd i chwi gwrdd ag Atheist, peidiwch gadael iddo eich dyrysu mewn dadl yn nghylch pethau anmherthynasol. Mewn perthynas i lawer o bethau a

ddygir gerbron ganddo, rhaid i chwi ddysgu defnyddio ateb y rabbi, "Ni wn i ddim." Ond gofynwch iddo saith cwestiwn :—1. Gofynwch iddo o ba le y daeth mater neu ddefnydd. A all peth marw greu ei hunan? 2. Gofynwch iddo o ba le y daeth symmudiad, neu y gallu i symmud *(motion.)* 3. Gofynwch iddo o ba le y daeth bywyd, os nad oddiwrth fŷs yr Hollalluog. 4. Gofynwch o ba le y daeth y trefn a'r bwriad ardderchog a geir yn Natur. Pe dywedai rhywun wrthych fod miliynau o lythyrenau'r argraffydd wedi ymffurfio trwy ddamwain i farddoniaeth odidog y bardd Dante, neu i chwareugerddi Shakespeare, oni feddyliech hwnw yn ddyn ynfyd? 5. Gofynwch iddo o ba le y daeth ymwybyddiaeth. 6. Gofynwch iddo pwy a roddodd i chwi ewyllys rydd. 7. Gofynwch iddo o ba le y daeth cydwybod.

Y PARCH. KENTISH BACHE.

Da genym ddeall fod y cyfaill uchod ar dir y byw. Fe gofia rhai o'n darllenwyr am dano fel myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Bu wedi hyny am dymhor yn weinidog Undodaidd, ond er's blynyddau, bellach, y mae yn gurad yn Eglwys Loegr. Dywedir fod y bont i'r eglwys hono yn un rhwydd i'w chroesi, ond nad yw yr ysgol, wedi croesi, yn hawdd i'w hesgyn. Mae Mr. Bache wedi anfon i ni yr adgof o'i fodolaeth mewn ffurf o bamphledyn ceiniog—"Christian Theology and Modern Scepticism"—yn ceisio dinystrio gwaith y Duc Somerset. Ail-argraffiad yw y pamphledyn, ac ymddangosodd y waith gyntaf yn 1872. Dyma farnau y wasg am dano :—"Ffol." "Ffol iawn." "Not complimentary." Mae y papyrau eglwysig, fodd bynag, yn tueddu i ganmol—"Shrewd." "Well-seasoned." Nid oes genym ni fawr cydymdeimlad â gwaith tebyg i eiddo y Duc Somerset, sydd yn ceisio tynu adeilad crefyddol dyn i lawr, heb roddi iddo ddim yn ei le; ond mae genym lai o ffydd mewn triniaethau tebyg i eiddo Mr. Bache. Ofnwn nad oes gan ein cyfaill argyhoeddiadau dyfnion mewn cyssylltiad â phynciau crefyddol.

DETHOLIADAU O'R BEIBL.

(Parhad. Gwel rhifyn Gorphenaf, tud. 164)

Hen Destament.—1 Croniel xvi. 8—11, 23, 24; xxix. 10—13. 2 Croniel i. 1—12; Nehemiah i. 4—11, rhan; Job xxviii., xxix., xxxviii. Salmau i. iv. v. (gadewch allan ranau o 8, 9, 10); viii., xii., xiii., xv., xvi., xvii. (gadawer allan 9—14); xix., xxii. 23, diwedd; xxiii., xxiv., xxv. (gadawer allan 19); xxvi., xxvii. (gadawer allan 12); xxx., xxxi., 1—5, 15, diwedd; xxxii., xxxiii., xxxiv., xxxvi., xxxvii., xl. (gadawer allan 14, 15); xlii., xliii., xlvi., xlvii. 6, diwedd; xlviii., l. (gadawer allan 22); li., lxi. 1—4; lxii. (gadawer allan 3, 4); lxiii. 1—7; lxv., lxvi., lxvii., lxxi., lxxii., lxxiii. 1—26; lxxvii., lxxviii. 1—8. *Testament Newydd.*—Marc ii. 13, diwedd; iv., 21, diwedd; vi. 1—34; vii.

1—15, 21—30; x. 13—45; xii. 1—27; xii. 28; xiii. 13; xiv., 1—21. Luc ii. 1—20; iii. 1—22; iv. 14—32; vi. 1—26; vi. 27, diwedd; vii. 1—23; vii. 31, diwedd; viii. 1—21; ix. 18—45; ix. 46, diwedd; x. 1—20; x. 21, diwedd; xi. 1—26; xii. 1—31; xii. 32, diwedd; xiii. 1—9, 18, diwedd; xiv. 1—24; xv., xvi., xvii. 1—21; xviii., 1—30; xix. 1—26; xix. 28, diwedd; xxii. 24—62; xxiii. 13—28, 32—49. Ioan iii. 1—21; iv. 1—26; v. 1—23; v. 24, diwedd; vii. 1—29; viii. 1—20; viii. 25—51; x. 1—21; x. 22, diwedd; xi. 1—26; xii. 1—36; xiii., xiv., xv., xvi., xviii. 33; xix. 16; xxi. 15, diwedd.

GWARIO'N DDOETH.

Edrych yn benaf sut yr ydych yn gwario. Ni waeth beth ddaw i fewn os bydd mwy yn myned allan. Nid yw y gelfyddyd gymmaint i wneuthur arian ag i'w gadw. Mae treulian bychain, fel llygod mewn ysgubor, pan fyddont yn llawer, yn gwneuthur gwastraff mawr. Bob yn flewyn a'r pen yn foel, bob yn welltyn mae y to'n myned oddiar y bwthyn, bob yn ddefnyn daw y gwlaw i'r ystafell, ac aiff y faril yn wag heb fod yn hir iawn os bydd y tap yn colli ond un dafn mewn munyd. Mewn gwisgoedd, dewiswch ddefnydd gwasanaethgar, ac nid rhywbeth fflachiog, diffrwyth. Y peth mawr yw, bod yn wresog: na ofalwch gymmaint am yr olwg. Gall ffwl gasglu arian, ond mae'n gofyn dyn doeth i'w wario'n iawn. Cofiwch ei bod yn hawddach adeiladu dwy simne nâ chynnal un. Os rhoddwch y cwbl i'r cefn a'r bwrdd, ni fydd dim wedi ei adael i'r banc cynnilo. Byddwch byw yn galed, a gweithiwch yn galed, pan yn ieuanc, a bydd genych obaith am orphwysdra pan ddeloch yn hen.

Manion a Hanesion.

ABERDAR.—Cynnaliwyd cyfarfod chwarterol Ysgol Sul yr Hen-Dy-Cwrdd ar y 18fed, pan y gwnaeth yr ysgolorion eu gwaith yn anarferol dda.

I FAB Y PARCH. W. JAMES, B.A., LLANDYSSUL.

Hoff i'r tad a'r fam fadiain—oedd gweled
Hardd gulon fab iraiu,
Hoffach maethu'r eu fab cain;
Ei enw yw Ioan Owain.

Enwau ei deid* a unwyd yn—ei enw,
Y tyner flaguryn;
Arenw ei dad rho'wn wed'yn
Yn olaf mae'n harddaf hyn.

*Mr. John Jones, Ty'r Dref, a'r diweddar Barch. Owen Evans, y Cefn.

Fel ei dad i wiw flodeuo—mewn dysg
Ac mewn dawn y delo,
At ir-ddysg dwfn y treiddio,
Athraw o bwyll uthr y bo.
—*Tyssulyn.*

CAPEL FADFA.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol Ysgol Sul Capel Fadfa dydd Llun, Mehefin yr 28ain. Yr oedd yr hin ar y diwrnod yn rhagorol, ac yr oedd pob peth arall yn cydweithio i wneyd yr wyl yn llwyddiannus dros ben. Darparwyd yn helaeth, a darfu i nifer fawr o blant, yn gystal â rhai mewn oed, fwynhau eu hunain wrth y byrddau toreithiog. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod rhagorol o ganu ac adrodd gan aelodau yr Ysgol Sul. Llywyddwyd gan y Parch. T. Thomas, Pantdefaid, i'r hwn y cyflwynwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch ar y diwedd.

Gwyl ardderchog, ac yr ydym yn awyddus am ei chyffelyb etto.—*Capelwr.*

GELLIONEN. — Cynnaliwyd cyfarfodydd pregethu yn yr hen fangre gyssegredig hon Sul, Mehefin y 27ain, ac yn Nghraigtrebannos y nos Lun canlynol. Y pregethwyr oeddynt y Parch. J. Hathren Davies, Cefn-coed-y-cymmer, a'r Parch. W. J. Davies, Dowlais. Yr oedd yr hin mor ffafriol ac awelon balmaidd yr haf mor bur ar ben mynydd Gellionen, fel y darfu i gannoedd lawer o bobl ddyfod yn nghyd o bob cyfeiriad i wrando pregethiad Efengyl Mab Duw. Traddodwyd wyth o bregethau, ac nid gormod yw dweyd fod y pregethwyr yn eu hwyliau goreu yn traddodi gyda nerth a dylanwad, nes peru i bawb deimlo mai da oedd iddynt fod yno. Gobeithiwn y bydd y cyfarfodydd yn fendith i'r ardaloedd. Eisieu sydd arnom yn mhob man fwy o ymdrech o blaid yr egwyddorion a broffeswn, mwy o ffydd yn Nuw, a mwy o Yspryd Crist Iesu yn ein calonau.

Eisieu mwy o gariad brawdol
I fodoli rhyngom sydd;
Dyna'r ffordd y cawn dderbyniad
Gyda Duw yn ngwlad y dydd.
—*L. Hopkin.*

Nid yw Crist yn atebol am yr oll a elwir genym ni yn Gristionogaeth. Os ydym am gael allan ddechreuad yr athrawiaethau yn nghylch y Drindod, yr ymgnawdoliad, a deilliad yr Yspryd Glân, rhaid i ni fyned at ysgolion Groegaidd yr athrawiaeth Alexandriaidd, ac nid at yr Efengyl. Mae hyn yn ffaith hanesyddol nad yw ein duwinyddiaeth wedi ei chymmeryd oddiwrth Grist neu hyd y nod ei apostolion; casgliad y meddwl Groegaidd yn gweithio ar y defnyddiau yn yr Efengyl ydyw.—*Y Parch. Hugh Reginald Haweis, un o offeiriaid Eglwys Loegr yn Llundain.*

YN FY MWTHYN.

Yn fy mwthyn gwyn mi ganaf—felus
Foliant i'r Goruchaf;
Am holl swynion hylon Haf,
Yn gwenu ar y gwanaf.
—*D. W. Davies.*

Dr. Guthrie roddodd y rhesymau canlynol dros fod yn llwyr-ymwrthodwr: "Mae fy mhen yn glirach, fy iechyd yn well, fy nghalon yn ysgafnach, a fy mhwrs yn drymach."

Y cam cyntaf at rinwedd yw caru rhinwedd yn arall.

YR ETHOLIADAU.

Pleidwyr Gladstone	195
Parnell-iaid	85
Y Gwrthgilwyr Rhyddfrydig ..	73
Y Toriaid	316
Un sedd heb ei phenderfynu—Orkney a Shetland	1
	670

Marwgofion.

Bu farw, ar ol hir gystudd poenus iawn, Daniel Jones, Lluest, Ciliau Aeron, yn 48 mlwydd oed. Yr oedd yn aelod defnyddiol iawn o eglwys Fechan y Ciliau er yn ieuanc. Yr oedd bob amser yn barod i wneyd a allai dros yr achos yn y lle. Teimlir colled mawr ar ei ol. Yr oedd yn un parod hefyd yn wastad i wneyd unrhyw gymmwynas a allai; a thrwy hyny, cerid ef gan bawb a'i hadwaenai. Gadawodd ar ol weddw mewn galar i deimlo ei choll-ed. Duw fyddo yn noddwr iddi. Gadawodd hefyd lawer o berthynasau a chyfeillion mewn hiraeth ar ei ol. Dydd ei angladd, daeth lluaws o bobl yn nghyd i ddangos eu parch iddo. Gweinyddwyd yn y ty gan W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd ef yn ymyl ei berthynasau yn Eglwys y Plwyf.

Ebrill y 30ain, bu farw William Davies, Trebannos, mewn byr amser, o'r *inflammation*, yn 62 oed. Gadawodd weddw a chwech o blant mewn galar ar ei ol. Yr oedd yn un o aelodau mwyaf parchus, mwyaf deallus, mwyaf selog, a mwyaf defnyddiol cynnulleidfa Gellionen. Yr oedd yn hyddysg iawn yn yr athrawiaeth Undodaidd yn yr oll o'i manylion. Y ffaith o ymadawiad hen ffyddloniaid yr eglwys hon a'n symbylo i ddyblu ein diwydrwydd o blaid yr achos da. Y dydd

Mawrth canlynol, daeth torf i'w gludo i'w wely pridd yn nghladdfa Gellionen, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. J. Evans.

Un anwyl aeth i huno—i dŷ'r bedd,
Hyd awr i bawb ddeffro,
I anfarwol freiniol fro
Y nefoedd, i gyd nofio.

Mai yr 20fed, bu farw Elizabeth Thomas, Pantmoch, gynt Cwmhyar, Llandyssul, yn 83 oed. Yr oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd da drwy gydol ei hoes faith; ac ni fu ond ychydig amser wedi iddi ddechreu clafychu cyn cyrhaedd pen ei thaith ddaearol. Gadawodd ar ei hol saith o blant heblaw llawer o wyrion Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn mynwent Tregroes, a phregethodd Mr. Jenkins, ficer y plwyf, ar yr achlysur.

Mai yr 21ain, o'r frech goch a'r *inflammation*, John, mab bychan Daniel ac Anne Jones, Drover's Road, yn 3 blwydd oed. Claddwyd ef y Llun canlynol yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Bydded i'r rhieni trallodus gael modd i ymdawelu yn ngwyneb y brofedigaeth chwerw.

Mai y 24ain, Margaret Jones, Treherbert, Pencarreg, yn 54 mlwydd oed. Y dydd Gwener canlynol, claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent y Bettws. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. C. Jones, Llanbedr.

Mehefin yr 2il, Hannah, merch William a Hannah Jones, Cefncoed, yn 13 mlwydd oed. Bu yn achwyngar am gryn yspaid, ond meddylid ei bod ar wellhad, yn enwedig pan ddechreuodd fyned allan, a mynychu'r cwrdd a'r Ysgol Sul. Ail-afaelodd y dolur ynddi, a chafodd gystudd trwm am tua naw diwrnod, nes i'r genad ddyfod i'w chyrchu i'r wlad fry. Yr ydym yn cydymdeimlo yn ddwys â'r tad a'r fam sydd erbyn hyn wedi claddu tri o'u plant bron yn yr un oedran. Nodded tadol Duw fyddo gyda hwynt i'w tywys i weled eu lles gwirioneddol yn y cwpanau chwerwon y maent yn gorfod yfed o honynt.

Mehefin y 15fed, yn 84 mlwydd oed, Martha Davies, Spile, Mydroilyn, Ceredigion. Y dydd Sadwrn canlynol, gosodwyd ei rhan farwol i orphwys yn mynwent Dihewid. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. John Davies, Alltyplacca.

Mehefin y 18fed, John Davies, Waun, Cellan, yn 49 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn ei angladd y Llun canlynol gan weinidog Caeronen, a chladdwyd ef yn mynwent y capel hwnw. Bydded i'w wraig a'i blant gael modd i ymdawelu o dan y brofedigaeth chwerw.

Mehefin yr 22ain, yn ddisymwth iawn, bu farw Thomas Thomas, Blaenbronfain, Llanwenog, yn 41 oed, gan adael gweddw a phedwar o blant bychain, er mewn amgylchiadau cyssurus, i alaru ar ei ol. Yr oedd y cyfaill ymadawedig, yn anffodus, wedi newydd dori ei goes, ond nid oedd yr anhap hwn wedi effeithio dim ar ei iechyd arferol, yn ol pob ymddangosiad allanol, canys yr oedd arno bob arwyddion iachad. Wrth godi ar ei eistedd yn y gwely i gymeryd ei hwyrbryd, cafodd ei daro yn glaf gan ryw ddolur mewnol sydyn a phoenus, ac ni fu byw ond rhyw awr neu ddwy. Yr oedd y cyfaill ymadawedig yn barchus yn ei gymmydogaeth, a theimlir yn hiraethlon ar ei ol. Claddwyd ef yn Mhantdefaid y dydd Gwener canlynol, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T.

Mehefin y 23ain, yn 68 oed, bu farw Miss Jane Jones, Nant-yr-ymenyn, Llandyssul. Nid oedd iechyd yr ymadawedig yn dda iawn er ys rhai blynyddau: blinid hi ar brydiau gan y gymmalwst, ond etto yr oedd bob amser yn siriol a hynaws. Ni fu ond rhyw bythefnos yn glaf iawn, a dyoddefodd ei chystudd yn amyneddgar. Gweinwyd arni yn ei dyddiau olaf gyda phob gofal a thynerwch gan berthynasau agos a llawer o gyfeillion. Claddwyd hi yn *vault* y teulu yn Mhantdefaid y dydd Mawrth canlynol. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. T. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. W. James, B.A., a'r Parch. R. C. Jones. Yr oedd Miss Jones yn ferch i'r diweddar Mr. Rees Jones o Bwllffine (Amnon ac awdwr "Crwth Dyffryn Clettwr"), nith i'r diweddar Barch. John Jones, Hen Dy Cwrdd, Aberdar, a chwaer i Mrs. Evans, Froudole, Cainewydd, yr hon sydd yn awr yn fyw. Yr oedd llawer yn Nyffryn Clettwr yn wrthddrychau caredigrwydd ein chwaer ymadawedig, y rhai nas gallant yn awr ond galaru eu colled a pharchu ei choffadwriaeth. Ffarwel.

Mehefin y 29ain, yn 2 flwydd oed, Lewis Garfield, anwyl blentyn Benjamin a Margaret Stephens, Porthway, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capel-y-bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. J. Davies ac E. Phillips.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—D.H., Ciliau; Rev. J.W., Penrhiw; S.D., Coedparc; H.J., Glynneath; Mrs. H., Gilfach Goch; T.J., Alltyplaca; J.D., Capelygroes; Mrs. A.G.J., Morris Run; M.T., Talgarth.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Meirion Cottage,
ABERDARE.

PREGETHAU Y PARCH. W. THOMAS, M.A.

Dymunwn alw sylw at y gyfres sydd yn dechreu gyda'r rhifyn hwn, a byddwn yn falch i gael anfon copïau ychwanegol at eiu dosparthwyr.

8vo. Cloth, price 6s.

THE PRESBYTERIAN FUND and DR. WILLIAMS'S TRUST: with Biographical Notes of the Trustees, and some Account of their Academies, Scholarships, and Schools. By Walter D. Jeremy, M.A., Esq., Barrister-at-Law, the Treasurer of the Presbyterian Fund.
Williams & Norgate, 14, Henrietta Street, Covent Garden, London.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

Mae llawer o ddarllenwyr presenol Yr Ymofynydd wrth bob tebyg nad ydynt erioed wedi clywed son am y Gymdeithas uchod. Cymdeithas ydyw at gynnorthwyo dynion ieuainc i gael addysg rhagbarotoawl ar gyfer y weinidogaeth. Drwg genym ddywedyd fod y *Funds* yn bresenol yn isel iawn, ac felly yr ydym yn apelio at garedigrwydd yr hen danysgrifwyr yn ogystal â rhai newydd, (mae eisieu rhai newydd) fel y gallom helpu ymgeiswyr. Mae y Gymdeithas wedi bod o wasanaeth da yn y gorphenol, gall cyfeillion helpu iddi fod o wasanaeth etto yn y dyfodol. A gawn ni gan y cyfeillion ddwyn y mater gerbron y cynnulleidfaoedd? Ysgrifenydd y Gymdeithas yw y

Gol.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜